Adnodd 4a

# **Stori Nathan**

Fy enw i yw Nathan ac rywy'n 14 oed. Rydw i'n mynd i sôn am yr hyn a ddigwyddodd i mi er mwyn i chi allu gwneud rhywbeth amdano os bydd yn digwydd i chi.

Rydw i wedi cael fy mwlio ar y rhyngrwyd. Digwyddodd sawl peth bach ar ôl i mi greu gwefan am ddim gyda Friendpages. Roedd y wefan hon yn galluogi unrhyw un i greu tudalen hafan lle'r oedd modd cynnwys lluniau, erthyglau a gofyn i bobl lofnodi llyfr gwesteion. Ar y pryd, roedd creu gwefan yn ymddangos yn syniad da, felly penderfynais wneud hynny. Roeddwn yn gwybod na fyddai modd i bobl, ar wahân i'm ffrindiau, droi at y wefan oni bai eu bod yn gwybod beth oedd enw'r wefan, ac na fyddai'n ymddangos ar beiriannau chwilio ar y we os byddai rhywun yn teipio fy enw yn Google er enghraifft. Aeth fy ffrindiau ati i greu eu gwefannau eu hunain gan adael negeseuon ar lyfrau gwesteion ei gilydd yn aml. Fodd bynnag, dechreuais gael negeseuon dienw a oedd yn fygythiol ac yn greulon. Er fy mod wedi dileu'r rhan fwyaf o'r rhain, mae gennyf rai ar fy nghyfrifiadur o hyd.

Roedd rhai o'r negeseuon yn dweud;
Nathan, rydw i'n dy gasáu di. Pan fyddaf yn dy weld di, byddaf yn dy ladd.
Rwyt ti'n salw.
Nid oes unrhyw un yn yr ysgol yn dy hoffi di
Rwyt ti yn druenus

Gadawyd nifer o negeseuon eraill yn fy llyfr gwesteion a oedd yn fwy cas a bygythiol na'r rhain, ac roeddent yn greulon.

Ceisiais esgus nad oeddwn yn becso amdanynt. Roeddwn yn becso amdanynt. Rydw i'n gwybod mai dim ond rhai pobl a fu'n ysgrifennu'r pethau hyn amdanaf, ond mae'n gallu teimlo fel miliwn o bobl pan fyddwch yn cerdded gyda'ch pen i lawr bob dydd, gan geisio osgoi'r tyrfaoedd o bobl nad ydynt yn eich hoffi oherwydd nad ydych yr un peth â nhw.

Er fy mod wedi ceisio peidio cael fy effeithio gan eu negeseuon, mae'n rhaid eu bod wedi fy mrifo yn y bôn, oherwydd nid oes gennyf hyder o hyd ac rydw i'n teimlo'r angen i ofyn am gyngor eraill wrth ystyried fy ngolwg. Stopiais

ddefnyddio fy ngwefan, gan barhau i fyw fy mywyd mewn ffordd mor arferol ag y gallwn.

Penderfynodd un o'm ffrindiau fy nghefnogi, gan nodi rhai sylwadau ar ei wefan yn beirniadu'r bobl a ysgrifennodd pethau amdanaf.
Ychydig ddyddiau wedi hynny yn yr ysgol, cefais fy amgylchynu gan oddeutu hanner cant o bobl yn fy mygwth ac yn rhegi ataf. Dechreuodd un o'r bechgyn fy ngwthio; roeddwn yn gwybod y byddent yn neidio arnaf os byddwn yn ei gwthio ef felly ni wnes i unrhyw beth. Roeddwn yn teimlo fel pe baent oll fy nghasáu.

Llwyddais i ddianc gan fynd i gofrestru yn syth, lle'r oeddwn yn gwybod y byddwn yn ddiogel, ond ni wnaeth pethau orffen. Dechreuodd pobl osod lluniau ohonof o gwmpas yr ysgol gyda geiriau fel "Gwyliwch eich hun" wedi'u teipio ar y posteri.

Rydw i wedi cael profiad o fwlio pellach yn yr ysgol gan yr un bechgyn ac rydw i wedi osgoi mynd i'r ysgol ar rai diwrnodau hyd yn oed oherwydd fy mod yn teimlo'n ofnus. Pan fydd cymaint o bobl yn dweud rhywbeth wrthych am gyfnod mor hir, rydych yn siŵr o'i gredu.

# Nathan.

- Sut ydych chi'n credu oedd Nathan yn teimlo ar ôl darllen y negeseuon? (Yn flin, yn drist, yn ofnus yn hapus... dechreuwch ehangu geirfa o fewn pob ystod emosiynol)
- Pa gyngor allech chi ei roi i Abbey pe baech wedi darllen beth oedd pobl yn ei bostio ar ei gwefan?
- Pam ydych chi'n meddwl fod pobl am frifo ei deimladau?
- Beth ydych chi'n meddwl ddigwyddodd nesaf?